# EVANS, JENKIN (1674 - 1709), gweinidog Annibynnol

**Enw:** Jenkin Evans
**Dyddiad geni:** 1674
**Dyddiad marw:** 1709
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** John Dyfnallt Owen

Ganwyd yn sir Forgannwg. Y mae ei hanes a'i addysg yn ei flynyddoedd cynnar yn anhysbys. Nid oes gofnod ar gael am ei drwyddedu i bregethu, ac nid yw ei enw ymhlith enwau disgyblion James Owen. Dilynodd James Owen yng Nghroesoswallt. Yr oedd yn bregethwr enwog a phoblogaidd, nid yn unig yn y dref ond yn y cwmpasoedd hefyd. Telir teyrnged uchel iddo am ei gymeriad unplyg a'i ddawn pregethu gan Mathew Henry. Cyfieithodd '*Catecism Byr i Blant*' gan Mathew Henry yn Gymraeg, a chyhoeddwyd y cyfieithiad yn Amwythig, 1708. Bu farw 19 Awst 1709. Pregethwyd yn ei angladd gan Mathew Henry.

## Awdur

**Y Parchedig John Dyfnallt Owen**, (1873 - 1956)

## Ffynonellau


W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 285

*Congregationalism in Shropshire* (1898), 36-8

*Memoirs of Mathew Henry* (1850), 297


## Gweithiau

Jenkin Evans, Matthew Henry, *Catechism byrr i blant: at yr hwn a chwanegwyd un arall er addysc i'r rhai sydd iw derbyn a'u cymmeryd i Swpper yr Arglwydd* (Caerfyrddin 1727)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733340


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu